# Croeso

## Croeso i'n hymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

Darllenwch y wybodaeth sy'n cael ei harddangos a darganfod sut y gallwch chi roi eich adborth ar ein cynigion drwy'r panel 'Dweud eich dweud'. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cynrychioli Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, sy'n gyfrifol am y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Pwy yw Uchelgais Gogledd Cymru?**
Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyd-bwyllgor a chorff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n goruchwylio Cynllun Twf Gogledd Cymru, cytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd erbyn 2036. Uchelgais Gogledd Cymru fydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac wrth symud ymlaen gobeithiwn y byddwch yn clywed llawer mwy amdanom wrth i ni helpu i lunio Gogledd Cymru fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn.

**Beth yw Cyd-bwyllgor Corfforedig?**
Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) yn sefydliadau llywodraeth ranbarthol newydd sydd â phwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac maent yn gyfrifol am les economaidd, cynllunio defnydd tir strategol, a chynllunio trafnidiaeth rhanbarthol. Mae ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yma yn y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe chyngor sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynlluni.

**Pam ein bod angen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?** Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Bydd yn disodli'r angen am gynlluniau trafnidiaeth lleol ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau y gall Gogledd Cymru gyfrannu at gyflawni strategaethau cenedlaethol ochr yn ochr â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, gan adeiladu ar y gwaith helaeth sydd eisoes wedi'i wneud a'i gynllunio. Yn y dyfodol, bydd cyllid trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ledled Cymru.

**Am beth yr ydym eisiau eich barn?**
Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am ein fersiwn ddrafft o'r **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol,** ei weledigaeth, amcanion, polisïau ac ymyraethau.

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau a'n hamcanion, megis y rhai sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a dulliau cynaliadwy o deithio, rydym wedi paratoi ein **Cynllun Monitro a Gwerthuso.** Hoffem wybod a ydych yn cytuno â'n dull arfaethedig o fonitro a gwerthuso llwyddiant ein polisïau a'n hymyraethau.

Mae ein **Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol** yn cefnogi ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n nodi'r ymyraethau y bydd ein hawdurdodau lleol yn eu datblygu. Hoffem wybod a ydych yn cytuno â'n blaenoriaethau a awgrymir i'w cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae ein **Harfarniad Llesiant Integredig** hefyd yn cefnogi ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Hoffem ddeall a ydych yn cytuno â'n harfarniad a'n hasesiadau i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfraniad trafnidiaeth at les ledled Gogledd Cymru.